Beth nesaf?

Cymwysterau

Mae hyfforddiant trylwyr ar gyfer marchnad gystadleuol heddiw yn hanfodol ac mae Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (National Vocational Qualifications - NVQs) neu'r Scottish Vocational Qualifications (SVQs) yn gymwysterau ynghylch gwaith, wedi eu seilio ar safonau a ddatblygwyd gan ddiwydiant a masnach. Maen nhw ynghylch codi safon cymwyseddau pobl. Mae hynny'n golygu hyfforddi mwy o bobl i lefel uchel fel y gallant gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau o safon dda.

Mae NVQs /SVQs yn cael eu gosod mewn fframwaith ar bedair lefel gan ddechrau â chyflwyniad ar Lefel 1, hyd at y sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer therapi harddwch, ewinedd a sba sylfaenol ar Lefel 2, i'r sgiliau mwy technegol ar Lefel 3 a'r rheolwr ar Lefel 4 ac yn uwch. Mae safonau penodol ar lefel 3 NVQ/SVQ ar gyfer Therapi Harddwch, Therapi Sba a Gwasanaethau Ewinedd. Ar ôl cwblhau'r lefelau hyn, gall therapyddion symud ymlaen i gymhwyster Tystysgrif neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch (Higher National Certificate or Diploma – HNC/HND), Gradd Sylfaenol neu Radd Anrhydedd.

Prentisiaethau

Mae cymryd Prentisiaeth mewn Therapi Harddwch yn golygu dysgu tra rydych chi'n cael eich cyflogi yn y salon. Yn ogystal â chymryd NVQs/SVQs ar gyfer Lefel 2 a/neu Lefel 3 er mwyn cymhwyso mewn therapi harddwch, byddwch hefyd yn ymdrin â sgiliau allweddol neu graidd sy'n bwysig ar gyfer gyrfa lwyddiannus. Fodd bynnag, os yw canlyniadau eich TGAU, graddau Safonol neu Uwch yn ddigon uchel, does dim rhaid i chi gymryd y sgiliau allweddol/craidd. Bydd rhai Prentisiaid hefyd yn astudio ar gyfer tystysgrif dechnegol, sydd yn gymhwyster galwedigaethol ychwanegol. Gall pob prentis ddysgu'r sgiliau Technoleg Gwybodaeth y bydd pob therapydd harddwch eu hangen mewn salonau yn y dyfodol.

Mae rhaglenni prentisiaeth ar gael hefyd mewn Gwasanaethau Ewinedd a Therapi Sba.

Bydd rhaglenni dysgu'r Prentisiaethau'n amrywio, gan ddibynnu lle fyddwch chi'n astudio, felly edrychwch ar wefan Habia er mwyn cael y wybodaeth a'r datblygiadau diweddaraf.

Canllawiau a Chyngor

Lle alla'i fynd i gael canllawiau a chyngor yn rhad ac am ddim?

Gallwch fynd i wefan Habia i gael y canllawiau a'r cyngor diweddaraf ynghylch gyrfaoedd yn y diwydiant therapi harddwch.

www.habia.org

Swyddfeydd Gyrfaoedd

Mae staff mewn Swyddfeydd Gyrfaoedd yn darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch cyfleoedd hyfforddiant yn eu rhanbarth. Maen nhw'n darparu gwybodaeth i bobl ifanc ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, gan eu helpu i ddewis yr yrfa gywir. Mae Swyddfeydd Gyrfaoedd yn cynnwys taflenni gan gyflogwyr arbennig a sefydliadau hyfforddi; mae ganddynt wybodaeth hefyd am swyddi gweigion.

Darparwyr hyfforddiant

Gall darparwyr hyfforddiant lleol roi cyngor ynghylch gyrfaoedd a gwybodaeth ynghylch cyrsiau hyfforddi addas sydd ar gael.

learndirect

Mae 'learndirect' yn rhoi cyngor diduedd ynghylch gyrfaoedd, rhaglenni dysgu a chyrsiau yn genedlaethol. Gallwch gysylltu â learndirect ar rhadffôn 0800 100 900 neu ewch i

www.learndirect.co.uk

	Swyddfa Gyrfaoedd	Cyswllt
Cymru	Gyrfa Cymru	www.careerswales.com Ffôn: 02920 906700
Lloegr	Connexions	www.connexions-direct.com Ffôn: 080 800 13 2 19
Yr Alban	Careers Scotland	www.careers-scotland.org.uk Ffôn: 0845 850 2502
Gogledd Iwerddon	Career Service Support Unit (CSSU)	www.delni.gov.uk Ffôn: 028 9044 1784

habia
safonau · gwybodaeth · atebion

safonau • gwybodaeth • atebion

Habia yw'r corff a gydnabyddir gan y llywodraeth ar gyfer gosod safonau ar gyfer trin gwallt Affricanaidd – Caribïaidd, gwaith barbwr, therapi harddwch, trin gwallt, ewinedd a sba, ac y mae'n creu'r safonau sy'n sail i bob cymhwyster gan gynnwys NVQs, Prentisiaethau a chodau arferion.

Yn bwynt cyswllt canolog os am wybodaeth, rydym yn darparu canllawiau ynghylch gyrfaoedd, datblygu busnes, deddfwriaeth, diogelwch salon, cyfleoedd cyfartal, a ni sy'n gyfrifol i'r llywodraeth am faterion fel hyfforddiant a sgiliau yn y diwydiant.

Rydym hefyd yn codi proffil ein diwydiannau trwy gyfrwng y wasg a'r cyfryngau, a ni yw'r pwynt cyswllt cyntaf i sefydliadau fel y BBC, Channel 4 a Sky TV am eitemau newyddion a gwybodaeth gefndir.

Mae Habia hefyd yn cyflwyno atebion yn uniongyrchol i:

salonau - i'w helpu i ddeall deddfwriaeth gymhleth fel iechyd a diogelwch a chyfraith cyflogaeth, gwella'r broses o gadw cleientiaid a chodi perfformiad busnes.

gweithwyr – i ennill y sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen i allu cynnig y diweddaraf yn ôl galw cleientiaid a'r technegau, offer a'r nwyddau diweddaraf, a defnyddio NVQs.

hyfforddwyr – i ddarparu cymwysterau â llawlyfrau cymorth hyfforddiant, a chreu rhaglenni addysgu llwyddiannus sy'n ymdrin â chyflwyniad ac asesu cychwynnol.

dysgwyr – trwy gynnig llyfrau ac arweinlyfrau addysgu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u hastudiaethau, a thrwy roi cyngor ar lwybrau gyrfa a chymwysterau.

A ninnau'n sefydliad nad yw'n gwneud elw, mae popeth a wariwch chi â Habia yn cael ei fuddsoddi'n ôl yn eich diwydiant.

I gael mwy o wybodaeth am sut y gallwn ni eich helpu, cysylltwch â ni yn:

BUDDSODDWR MEWN POBL

© Hawlfraint 2006 Habia – Cedwir pob hawl
Llun y Clawr gan Mary Cohr
Lluniau oddi mewn gan RA Imaging ar gyfer Habia

habia
safonau · gwybodaeth · atebion
Oxford House, Sixth Avenue, Sky Business Park, Robin Hood Airport,
Doncaster, South Yorkshire DN9 3GG
Ffôn> 0845 2 306080 **Ffôn gwerthiant>** 0845 6 123555 **Ffacs>** 01302 774949
Ffôn Rhyngwladol> +44 845 2 306080 **Ffacs Rhyngwladol>** +44 1302 774949
E-bost> info@habia.org **Gwefan>** www.habia.org

habia safonau · gwybodaeth · atebion **sbaen**

habia safonau · gwybodaeth · atebion **yr eidal**

habia safonau · gwybodaeth · atebion **y dwyrain**

Gyrfaoedd mewn Therapi Harddwch

Gyrfa mewn Therapi Harddwch

Beth sy'n gwneud Therapydd Harddwch da?

Er mwyn dod yn therapydd harddwch byddwch angen cyfuniad unigryw o sgiliau a byddwch angen cryn dipyn o hyfforddiant. Bydd yn rhaid i chi hefyd fod â gallu heb ei ail bron mewn amrywiaeth eang iawn o sgiliau.

Bydd yn rhaid i chi fod yn gyfathrebwr ardderchog, nid yn unig gyda'ch ffrindiau a'r bobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda, ond gyda phobl o bob grŵp oedran, cefndir cymdeithasol, cefndir ethnig, gwaith a rhyw.

- Byddwch angen cryn dipyn o sgil a dawn artistig
- Bydd rhaid i chi ddysgu rheolau sylfaenol cemeg, ffiseg, anatomi dynol, ffisioleg a mathemateg
- Byddwch angen cryn dipyn o egni corfforol
- Dylech fod yn eithriadol o dda â'ch dwylo
- Dylech feddu ar bersonoliaeth fywiog, egnïol, cryf a diddorol
- Dylech fod yn ddiplomatig, llawn cydymdeimlad a dylech fod â'r gallu i wrando a chyfathrebu'n dda
- Bydd raid i chi fod yn barod i ymgymryd â chyfnod hir o hyfforddiant ar y dechrau ac yna fynd yn eich blaen i ddatblygu eich sgiliau trwy ddysgu technegau newydd gydol eich oes waith.

Mae dod o hyd i'r holl nodweddion hyn mewn un unigolyn yn beth anodd iawn. Dyna pam fod therapyddion harddwch da yn brin a dylid gwobrwyo sgiliau prin. Gall fod y tâl yn isel yn ystod y cyfnod hyfforddi ond bydd yn aml yn cael ei wella gan gildwrn oddi wrth gleientiaid a bydd yn cynyddu ymhellach gan gomisiwn sy'n cael ei ennill trwy werthu cynnyrch adwerthol i gleientiaid. Bydd therapyddion harddwch yn y prif salonau a'r rhai hynny sy'n symud ymlaen i swyddi rheoli neu'n rhedeg eu salonau eu hunain yn ennill hyd yn oed yn fwy.

Ar ben hynny, fel therapydd harddwch cymwysedig â rhagor o hyfforddiant a phrofiad, mae cyfleoedd i arallgyfeirio i swyddi eraill sy'n gysylltiedig â harddwch. Bydd rhai yn y maes addysgu a hyfforddi, sy'n denu cyflogau uchel a buddion.

Mae bodlonrwydd mewn swydd yn dâl na allwch chi fyth ei fesur. Byddwch yn gweithio mewn diwydiant sy'n datblygu'n gyflym ac yn newid gydol yr amser. Mae therapyddion harddwch yn mwynhau eu gwaith ac yn cael pleser di-ben-draw yn gweithio â'r cyhoedd i wella eu golwg a'u cysur. Fel therapydd harddwch, mae gennych sgiliau a fydd yn sicrhau eich bod yn gallu symud mewn swydd mewn salonau, sbâu a ffermydd iechyd yn y wlad hon, ar fwrdd llongau mordaith ac mewn cyrchfannau gwyliau rhyngwladol ledled y byd.

Mae therapi harddwch yn ddiwydiant a fydd yma hyd byth ac y mae ganddo gynnyrch anhygoel. Ond, yn bwysicach na hynny, mewn cymdeithas heddiw lle mae pobl yn colli swyddi a diwydiannau'n methu, ni fydd y gwasanaeth y mae therapyddion harddwch yn ei gynnig a'r sgiliau sydd ganddynt, byth yn diflannu.

Gyrfa mewn Therapi Harddwch

Beth y mae Therapydd Harddwch yn ei wneud?

Mae therapydd harddwch yn darparu triniaethau a gwasanaethau i wella golwg cleient yn ogystal â gwella eu cysur. Bydd rhai o'r triniaethau, tylino'r corff er enghraifft, yn eu helpu i ymlacio yn ogystal â'u helpu i gael gwared ar straen eu bywydau prysur. Bydd rhai therapyddion harddwch yn cynnig triniaethau fel trin y dwylo, y traed, colur, cwyro, a thrin yr amrannau a'r aeliau. Bydd y rhai hynny sydd â chymwysterau uwch yn darparu triniaethau electrotherapi i wella ffyrfiant a siâp y corff ac yn rhoi triniaethau diflewio er mwyn cael gwared ar flew yn barhaol.

Y Diwydiant Therapi Harddwch - Ffeithiau

Mae dros 7,500 o salonau therapi harddwch yn y DU yn ogystal â thros 5,400 o salonau trin gwallt yn cynnig triniaethau therapi harddwch. Mae'r diwydiant therapi harddwch yn mynd yn fwyfwy amrywiol. Mae nifer y barrau ewinedd a'r sbâu yn tyfu, gan gynnig mwy o gyfleoedd i'r therapydd harddwch ymestyn sgiliau a gwybodaeth.

Yr Ysgol Yrfa – Therapi Harddwch

Addysg Uwch
- Astudiaethau Proffesiynol
- Technoleg Gwybodaeth
- Yr Amgylchedd Economaidd
- Rheoli Gweithredol
- Rheoli Pobl
- Marchnata

GRADD SYLFAENOL → GRADD ANRHYDEDD → **Rheolaeth Arbenigol**: Rheolwr Addysg; Arolygiaeth; Ymgynghorydd; Rheolwr Salon

Rheolwr Lefel 4:
- Cynllunio Busnes
- Rheoli Cyllid
- Datblygu Gwerthiant a Marchnata
- Perfformiad Salon
- Arwain Timau ac Unigolion

LEFEL 4 → **Rheolaeth**: Darlithydd; Rheolwr Salon; Ymgynghorydd Diwydiant; Darlithydd Coleg; Rheolwr Hyfforddiant Salon; Ymarferydd Uwch e.e. laser, microliwiad; Perchennog Salon; Rheolwr Derbynfa

Mae Cyfrifoldebau Lefel 3 yn cynnwys:
- Cynnal Iechyd a Diogelwch yn y salon
- Gwella gwasanaethau i gleientiaid
- Gwella cyflwr y corff, wyneb a'r croen trwy ddefnyddio triniaethau trydanol
- Technegau tylino'r corff a'r wyneb â llaw ac yn fecanyddol
- Tylino'r wyneb a'r corff gan ddefnyddio aromatherapi
- Tylino'r pen yn y dull Indiaidd
- Cael gwared ar flew gan ddefnyddio technegau diflewio
- Technegau colur arbenigol ar gyfer tynnu lluniau a cholur sy'n cuddliwio

ac yn cyfrannu at:
- Reoli Cyllid
- Hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau ychwanegol

LEFEL 3 → **Therapydd Harddwch**: Gwerthiant a Marchnata'r Diwydiant Therapi Harddwch; Darlithydd Coleg; Technegydd Cynhyrchydd; Colurwr/wraig; Therapydd Uwch; Technegydd Salon; Hyfforddwr/Aseswr Salon; Derbynnydd Uwch; Therapydd ar ei liwt ei hun; Therapydd Ysbyty/ Cartrefi Gofal; Hyfforddwr Therapydd Carchar ei Mawrhydi; Therapydd ar Long Fordaith; Electrolegydd; Therapydd Tylino

Mae Cyfrifoldebau Lefel 2 yn cynnwys:
- Dyletswyddau derbynfa mewn salon
- Gwasanaethau colur
- Gwella cyflwr wyneb y croen
- Triniaethau cwyro
- Gwella'r amrannau a'r aeliau
- Gwella cyflwr yr ewinedd a'r croen cyfagos
- Trin y dwylo a'r traed
- Ymestyn a chynnal yr ewinedd (lapio mewn sidan a ffibr)
- Darparu gwasanaethau celf yr ewinedd
- Cynorthwyo â thriniaethau sba
- Darparu gwasanaeth tyllau yn y clustiau

ac yn cyfrannu at:
- Perthynas waith gadarnhaol
- Gwaith tîm a datblygu
- Hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau ychwanegol
- Iechyd a Diogelwch yn y salon
- Triniaethau sba

LEFEL 2 → **Therapydd Iau Ymgynghorydd Iau Therapydd Sba Iau**: Therapydd Iau; Technegydd Ewinedd Iau; Ymgynghorydd Coluro; Ymgynghorydd Gofal y Croen; Ymgynghorydd Gofal yr Ewinedd; Therapydd Sba Dydd Iau; Therapydd Sba Iau mewn Cyrchfan Wyliau

Lefel 1 Cynorthwyo â:
- Dyletswyddau Derbynfa Salon
- Paratoi a chynnal triniaethau
- Triniaethau i'r wyneb
- Triniaethau i'r ewinedd ar y llaw

ac yn cyfrannu at:
- Perthynas waith gadarnhaol
- Gwaith tîm a datblygu
- Iechyd a Diogelwch yn y salon

LEFEL 1 → **Therapydd Cynorthwyol**: Therapydd Cynorthwyol; Derbynnydd Cynorthwyol